| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 20 Medi 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Diweddariad am Ddatganiad o Gyfrifon Drafft 2022/23 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Darparu diweddariad am gynnydd fersiwn ddrafft Datganiad Cyfrifon 2022/23 a'r broses sy'n sail iddo.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi dirprwyo cyfrifoldeb i gymeradwyo cyfrifon wedi'u harchwilio. Mae Archwilio Cymru wedi egluro eu dull dwy haen mewn perthynas ag archwiliadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer 2022/23. Golyga hyn y bydd gwaith archwilio'n dechrau ym mis Tachwedd a gobeithir y bydd y cyfrifon archwiliedig yn cael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2023. Mae cyflwyno'r cyfrifon drafft yn rhoi syniad cynnar o sefyllfa ariannol y cyngor a gall amlygu unrhyw faterion yn y cyfrifon neu'r broses cyn i'r cyfrifon gael eu harchwilio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi'r sefyllfa fel y'i cyflwynir yn y cyfrifon drafft (gweler Atodiad 1).

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo a gymeradwyir. Mae'n rhaid i'r aelodau etholedig gymeradwyo'r cyfrifon a

archwiliwyd yn ffurfiol ar ran y cyngor. Mae'r rôl hon wedi cael ei dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bellach mae’r cyfrifon drafft wedi eu cwblhau ac wedi’u llofnodi gan y Pennaeth Cyllid ar 6 Medi (27 Mehefin y llynedd). Roedd y cyfrifon drafft ar gael i’w harchwilio yn ôl y gofyn a byddant hefyd ar gael i’r cyhoedd eu harchwilio rhwng 25 Medi a 20 Hydref.

Fel y nodir yn Adran 2, bydd yr amserlen ar gyfer dechrau a chwblhau’r archwiliad o’r cyfrifon yn cael ei hoedi eto. Gobeithir y bydd y gwaith hwn yn dechrau ym mis Tachwedd a’i gwblhau fel bod modd cyflwyno’r Cyfrifon Terfynol yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth. Fodd bynnag, dylid cydnabod, yn amodol ar unrhyw faterion sy’n codi, efallai y bydd yn rhaid gohirio’r terfyn amser hwn.

## 5. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau uniongyrchol ychwanegol yn codi o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

## 6. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae gweithdrefnau a phrosesau'r Cyngor sy’n sail i lunio’r cyfrifon yn cael eu hadolygu’n rheolaidd gan Archwilio Cymru. Caiff barn broffesiynol ei cheisio oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill y tu hwnt i gyllid, fel yr adain gyfreithiol, prisio eiddo, adnoddau dynol a phensiynau.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae’r Datganiad Cyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu’r cyngor. Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael eu sicrhau bod y cyfrifon wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r safonau perthnasol a bod y broses sy'n sail i gynhyrchu’r cyfrifon yn gadarn.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Fel y nodir uchod, yn sgil yr oedi yn y gwaith archwilio, dylid nodi’r terfyn amser ar gyfer cwblhau’r gwaith ym mis Mawrth fel risg.  Fodd bynnag, byddwn yn gweithio’n agos gydag Archwilio Cymru er mwyn ceisio sicrhau bod y drafft yn cael ei gyflawni.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Penodedig archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor, a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018.